



**I'w ryddhau ar unwaith**

# Cynllun benthycia newydd yn gwobrwo perchnogaeth gymunedol gynaliadwy

**Wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru, bydd y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol yn benthycy cyllid i grwpiau sy'n ceisio dod ag eiddo o dan berchnogaeth gymunedol.**

Mae'r Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol (CALF) yn gynllun newydd a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir gan dîm [Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru](#) CGGC.

Bydd benthyciadau ar gael i ganiatáu i fudiadau gwirfoddol gymryd perchnogaeth o ased ar gyfer y gymuned. Mae CALF wedi'i chynllunio i wobrwyo'r rheini sy'n gallu dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi neu'r newid yn yr hinsawdd, gyda chyfleoedd i gael gostyngiadau mewn cyfraddau llog safonol.

Bydd benthyciadau o hyd at £300,000 ar gael i brynu neu ailwampio eiddo i'w ddefnyddio gan y gymuned. Yn wahanol i fenthyciadau banc traddodiadol, gall CALF gyllido hyd at 100% o werth yr eiddo.

Mae Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda [Cynnal Cymru](#), mudiad datblygu cynaliadwy mwyaf blaenllaw Cymru. Mae hyd at 1% o ostyngiad ar gyfraddau llog ar gael i fudiadau sydd wedi'u hachredu, neu

a fydd yn cael eu hachredu fel cyflogwyr [Cyflog Byw](#), a/neu'r rheini sy'n gweithredu ac yn cynnal a chadw cynllun gweithredu amgylcheddol.

Mae grantiau bach hefyd ar gael ar adeg prynu'r eiddo i helpu mudiadau i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i roi ar waith wrth reoli eu heiddo.

Daw'r cyhoeddiad am y gronfa newydd yn ystod [Wythnos Elusennau Cymru](#), sef wythnos ddathlu newydd sy'n taflu goleuni ar effaith ryfeddol grwpiau nid-er-elw o bob math yng Nghymru.

Dyweddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt:

'Mae'r sector gwirfoddol yng Nghymru yn rhan hanfodol o'r cymorth i'n cymunedau, ac rwyf wrth fy modd yn gweld y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol yn cael ei lansio yn ystod yr Wythnos Elusennau. Bydd y gronfa hon yn helpu cymunedau i gymryd perchnogaeth o'r tir a'r adeiladau y maen nhw'n eu gwerthfawrogi mwyaf.

'Mae cyfleusterau o dan berchnogaeth a gweithrediad cymunedau yn ein helpu ni i gyflawni ein nodau llesiant o wneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi yn lleoedd gwell i fyw a gweithio ynddynt ac i ymwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn.'

Dyweddodd Alun Jones, Pennaeth Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru yn CGGC:

'Rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi'r gronfa fenthyciadau newydd hon wrth i ni ddathlu Wythnos Elusennau Cymru a'r mudiadau gwirfoddol sy'n cyfoethogi bywydau pob un ohonom yma yng Nghymru.

'Rydyn ni'n gobeithio y bydd y cynllun yn caniatáu i grwpiau barhau i wneud cyfraniadau ystyrlon i'w cymunedau ymhell i'r dyfodol. Byddwn yn annog unrhyw un â diddordeb mewn manteisio ar y gronfa hon i gysylltu â thîm Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru am ragor o wybodaeth.'

Bydd CALF hefyd yn ategu trefniadau benthyca sydd eisoes yn bodoli. Gall mudiadau sydd eisoes â chynlluniau ar waith i gyllido pryniant eiddo yn rhannol [gysylltu â Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru](#) i weld sut gall CALF eu cynorthwyo i gael gafael ar weddill yr arian.

### **Nodiadau i'r golygyddion**

- Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Simon Dowling – [sdowling@wcva.cymru](mailto:sdowling@wcva.cymru) / 02920 436596
- Mae CALF yn cael ei rheoli gan dîm [Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru](#) CGGC sy'n ceisio benthyg arian pan fydd benthycwyr traddodiadol yn gwrthod. Mae'r gronfa fenthyciadau yn ychwanegiad newydd cyffrous i'n hamrediad o fenthyciadau, grantiau ac opsiynau buddsoddi cyfunol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydyn ni'n bodoli er mwyn galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd
- Mae Wythnos Elusennau Cymru yn cael ei chynnal rhwng 15-19 Tachwedd 2021 - <https://wythnoselusennau.cymru/>

*Er mwyn i ni allu hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru a diweddarau ein cysylltiadau yn y wasg ar newyddion perthnasol gan CGGC, mae eich gwybodaeth wedi'i chofnodi ar ein cronfa dda. Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd, sydd ar gael ar wefan CGGC, i gael rhagor o wybodaeth am sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, pwy sy'n gallu cael gafael ynddi, y sail gyfreithiol dros gadw eich gwybodaeth a'ch hawliau o ran yr wybodaeth hon.*

Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa: Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dunballs, Caerdydd CF10 5BF (Swyddfeydd hefyd yn Abergele ac Aberystwyth)  
Ffôn: 0300 111 0124  
E-bost: [help@wcva.cymru](mailto:help@wcva.cymru)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Elusen gofrestrdig 218093  
Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299

Cofrestrwyd yng Nghymru